CYHOEDDIAD

# Taliadau Gwledig Cymru (RPW): Y diweddaraf am brosiectau'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) ar RPW Ar-lein Ionawr 2023

Diweddariad gwasanaeth diweddaraf ar Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG), Cynllun Buddsoddi Mewn Busnes Gwledig (RBIS) Bwyd a Datblygu Cadwyn Gyflenwi Cydweithredu Amaethyddiaeth (CSCD).

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 27 Ionawr 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 27 Ionawr 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-y-diweddaraf-am-brosiectaur-rhaglen-datblygu-gwledig-rdp-ar-rpw-ar-lein** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Newidiadau i brosiectau sydd wedi'u cymeradwyo

Prosiectau y disgwylir eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2023

Nodyn atgoffa ynghylch hawlio

Cofrestrau Gwariant ac Ailwerthusiadau

Nodyn Atgoffa ynghylch Croniadau

Cau'r rhaglen

Ymholiadau am y prosiect

Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-y-diweddaraf-am-brosiectaur-rhaglen-datblygu-gwledig-rdp-ar-rpw-ar-lein** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Newidiadau i brosiectau sydd wedi'u cymeradwyo

**Y dyddiad cau ar gyfer pob cais am newidiadau** i brosiectau sydd wedi'u cymeradwyo (ailwerthusiadau) yw **31 Ionawr 2023.** Ni fydd unrhyw geisiadau i newid prosiectau yn cael eu derbyn ar ôl y dyddiad hwn.

Gweler **diweddariad Tachwedd 2022** am yr amgylchiadau a'r broses ar gyfer gwneud cais am newid.

## Prosiectau y disgwylir eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2023

Mae disgwyl i bob prosiect sydd â hawliad ariannol olaf yn y Flwyddyn Ariannol hon (Ebrill 2022 i Fawrth 2023) gyflwyno eu hawliad terfynol **erbyn 5 Ebrill 2023.**

Os oes angen i chi ofyn am estyniad i ddyddiad dod i ben eich prosiect, bydd angen i chi gyflwyno cais i newid prosiect **erbyn 31 Ionawr 2023**.

## Nodyn atgoffa ynghylch hawlio

Mae blwyddyn ariannol Llywodraeth Cymru 2022/23 yn para o 1 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2023.

Mae eich cyllid grant RDP wedi ei gyllidebu ar gyfer y blynyddoedd ariannol a gymeradwywyd fel rhan o Broffil Cyflawni eich prosiect.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-y-diweddaraf-am-brosiectaur-rhaglen-datblygu-gwledig-rdp-ar-rpw-ar-lein** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Rhaid hawlio'r holl wariant prosiect cymwys a ysgwyddwyd yn y Flwyddyn Ariannol 2022/23 **erbyn 5 Ebrill 2023 fan bellaf.**

Os oes gennych hawliad wedi'i broffilio ar gyfer Mawrth 2023, bydd RPW yn gwahodd eich hawliad yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Mawrth i roi amser i chi gyflwyno'r hawliad **erbyn 5 Ebrill 2023.**

Os na fyddwch wedi hawlio holl wariant cymwys y prosiect, mae perygl y gallech golli'ch grant.

Os oes gennych fwy nag un hawliad ar gael (â statws Gwahoddwyd), rydym yn eich cynghori i hawlio'r un diweddaraf a gofyn i ni ganslo'r hawliad(au) hŷn.

# Cofrestrau Gwariant ac Ailwerthusiadau

Os oes gennych wariant prosiect cymwys y gellid ei hawlio cyn diwedd y Flwyddyn Ariannol ond rydych yn aros am gymeradwyaeth ar gyfer y gofrestr wariant neu ailwerthusiad prosiect, dilynwch y cyfarwyddiadau isod ynghylch croniadau os na fydd cymeradwyaeth wedi'i rhoi erbyn wythnos gyntaf mis Mawrth.

Gall peidio â chyflwyno croniadau beryglu'ch cyllid grant.

# Nodyn Atgoffa ynghylch Croniadau

Bydd angen croniadau:

- Os na fyddwch wedi gwario holl wariant Blwyddyn Ariannol 2022/23 y prosiect, er enghraifft mae gennych anfonebau sydd heb eu talu ar 31 Mawrth 2023 neu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-y-diweddaraf-am-brosiectaur-rhaglen-datblygu-gwledig-rdp-ar-rpw-ar-lein** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Os nad ydych wedi gallu hawlio am eich bod yn aros am y canlynol:
    - y newidiadau rydych chi wedi gofyn amdanynt mewn ailwerthusiad a bod hynny’n effeithio ar eich gallu i hawlio,
    - i ni gymeradwyo cofrestr gwariant a/neu gofnod eich tendr cystadleuol,
    - taliad o hawliad blaenorol

Yn yr achosion hyn, bydd angen i chi gronni'r gwariant 22/23 sydd heb ei hawlio drwy gyflwyno'r dystiolaeth ohono drwy eich cyfrif **RPW** Ar-lein **erbyn 5 Ebrill 2023 fan bellaf.**

Os na fyddwch yn darparu tystiolaeth ategol, efallai na fyddwn yn gallu cronni'r gwariant hwn ac mae’n bosibl y bydd yr arian grant mewn perygl.

Ni fydd RPW yn gwneud taliad i chi yn seiliedig ar y croniad gan ein bod ond yn gwneud taliadau ar gyfer hawliadau a gyflwynir drwy'r swyddogaeth hawlio ar RPW Ar-lein.

Byddwn yn disgwyl ichi **hawlio'r gwariant hwn sydd wedi cronni ar RPW Ar-lein erbyn 30 Ebrill 2023 fan bellaf.**

Gallwch ei hawlio ar RPW Ar-lein fel rhan o'ch hawliad nesaf o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fyddwch wedi’i wario ac y bydd gennych dystiolaeth ar gyfer ei hawlio fel anfonebau a datganiadau banc
- pan fydd y tendr cystadleuol wedi'i gymeradwyo, neu’r ailwerthusiad wedi'i gwblhau; pa un bynnag sy'n berthnasol

# Cau'r rhaglen

Bydd rhaglen RDP 2014-2020 yn cau ar 31 Rhagfyr 2023 ac rydych nawr yn agosáu at y misoedd olaf ar gyfer eich prosiect. Rhaid i chi gyflawni amcanion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-y-diweddaraf-am-brosiectaur-rhaglen-datblygu-gwledig-rdp-ar-rpw-ar-lein** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

eich prosiect y cytunwyd arnynt a chyflwyno eich **hawliad terfynol erbyn y dyddiad cau ar 7 Gorffennaf 2023**.

## Ymholiadau am y prosiect

Os oes gennych ymholiadau, neu dystiolaeth ddogfennol i'w chyflwyno, anfonwch nhw i:

- Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW, neu
- eich cyfrif RPW Ar-lein

Os nad ydych yn gallu agor eich cyfrif RPW Ar-lein, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW ar unwaith.

## Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Mae cysylltwyr **Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW** yn dal i weithio gartref. Gallai hynny effeithio ar gyflymder ein hymateb i rai ymholiadau.

Mae gwasanaeth ffôn y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid yn gweithio fel a ganlyn:

| Cyfnod | Oriau agor |
|---|---|
| Llun – Gwener | 9:00am - 4:00pm |

Os medrwch, anfonwch eich ymholiadau neu geisiadau 'pob dydd' drwy'ch cyfrif RPW Ar-lein sydd ar gael 24 awr y dydd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-y-diweddaraf-am-brosiectaur-rhaglen-datblygu-gwledig-rdp-ar-rpw-ar-lein** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-y-diweddaraf-am-brosiectaur-rhaglen-datblygu-gwledig-rdp-ar-rpw-ar-lein** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.